AR ADDEWIDION PWY 'RYDYCH CHI'N DIBYNNU?

Nodyn i'r siaradwr:

Cymhellwch werthfawrogiad am Jehofah fel Duw sydd bob amser yn cyflawni'i addewidion. Gwnewch yn eglur fod angen i ninnau gadw'n gair. Dangoswch ddoethineb ymddiried yn Jehofah yn hytrach na bodau dynol amherffaith, y mae eu haddewidion yn aml yn wag. Ysgogwch bawb i ymddiried yn Jehofah ac i ymestyn am y dyfodol rhyfeddol y mae wedi'i addo

AGWEDDAU CYFOES TUAG AT ADDEWIDION (7 mun.)

Diffyg parch at addewidion gwleidyddol oherwydd fod gwleidyddion yn methu â'u cadw

Naill ai fe'u gwneir heb fwriadu'u cadw neu nid oes gan y rhai sy'n eu gwneud y gallu i'w cadw

Dywedir i'r Ymerawdwr Napoleon I ddweud: "Os ydych am ddod ymlaen yn y byd hwn, gwnewch lawer o addewidion, ond peidiwch â'u cadw nhw"

Cyhoeddodd arlywydd yr Unol Daleithiau yn ystod ymgyrch etholiad 1940: "Fe'i dywedaf eto ac eto ac eto: ni fydd eich bechgyn chi'n cael eu gyrru i unrhyw ryfel estron," ond 'roedd e eisoes wedi ymrwymo'r Unol Daleithiau i raglen enfawr o gymorth milwrol i Brydain ac wedi cynllunio ar gyfer rhyfel cyfamserol yn erbyn Yr Almaen a Japan (*The New York Times* 7/2/71 tud 33)

Ym 1988 dywedodd ymgeisydd am arlywyddiaeth yr U.D.: "Bydd y Gyngres yn pwyso arnaf i godi trethi, ac fe ddywedaf na, ac fe bwysant, ac fe ddywedaf na, ac fe bwysant eto, ac fe ddywedaf wrthynt, 'Darllenwch fy ngwefusau: Dim trethi newydd.'" Yna, ddwy flynedd yn ddiweddarach, wedi iddo gael ei ethol, fe ddywedodd: "Mae'n amlwg i mi . . . i ateb problem y diffyg ariannol a'r angen am fesurau y gellir eu gweithredu, y bydd yn rhaid . . . cynyddu cyllid trethol . . ." (*The New York Times* 6/27/90 tud 1)

Mae addewidion crefyddol yn colli hygrededd pan addewir budd a lles yn y dyfodol yn gyfnewid am gyfraniadau ariannol

Mae addewidion personol yn aml yn ddiwerth

Mae torri addewidion a pheidio cadw apwyntment yn digwydd bob dydd

Ymadrodd a glywir yn aml yw, "Addewid ydi addewid,"—yn herio rhywun i gadw at yr hyn a gytunwyd

Anghofir am addewid gwobr neu wasanaeth

'Dyw dyweddiadau ac addunedau priodas ddim yn cael eu cymryd o ddifrif ac maen' nhw'n cael eu torri

Mae un athro cymdeithaseg yn dweud mai dim ond 50-50 yw'r siawns i briodasau cyntaf lwyddo y dyddiau hyn am fod gormod o bobl yn dweud, "Cymeraf," ond yn golygu, "Na chymeraf"

Mae llawer yn addo gyda'r bwriad o gadw'r addewid dim ond os bydd hynny'n gyfleus

'Does dim rhyfedd fod dadrith, siom, loes ddofn, a dicter hyd yn oed yn cael eu hychwanegu at bryderon y ddynoliaeth heddiw (*w*73 59)

GOLYGWEDD Y BEIBL AR ADDEWIDION (10 mun.)

Mae'r Beibl yn dangos y dylai beth bynnag a ddywedwn fod yn eirwir (Salm 15:2; Diar 12:22; Eff 4:25)

Dylai dyn ystyried yn ofalus cyn gwneud addewidion (Salm 34:13; Diar 20:25; Preg 5:2)

Unwaith y gwneir addewidion, dylem ymdrechu i'w cadw (Deut 23:23)

Ystyrir y rhai sy'n methu â chadw addunedau yn ffyliaid neu â'u gair yn annibynadwy (Preg 5:4-6; *w*77 243)

Dangosodd Jefftha ei fod yn ddyn oedd yn cadw at ei air, er i hyn achosi loes mawr iddo (Barn 11:30-35; Salm 15:1-4; *it*-2 28)

Addewid wedi'i atgyfnerthu yw llw, ac mae un sy'n caru llwon celwyddog yn cael ei gondemnio gan Awdur y Beibl (Sech 8:17; *it*-2 516-18)

Ni thorrodd Josua ei gyfamod â'r Gibeoniaid er iddo ddeall yn ddiweddarach iddynt ei dwyllo i wneud hyn (Jos 9:15-21)

Dylem ninnau gadw'n gair

Rhaid inni beidio gwneud addewidion ac yna'u torri pan fo cyfleon mwy deniadol yn dod i'n rhan

Dywedodd Iesu: "Ond boed *'ie'* eich ymadrodd chwi yn 'ie' yn unig, a'ch *'nage'* yn 'nage' yn unig" (Math 5:37; *w*89 9/15 28-9)

Dylai person olygu'n ddiffuant yr hyn mae'n ei ddweud

Unwaith mae dyn yn rhoi ei air, dylai ystyried cadw'i air yn ddyletswydd gysegredig mae'n rhaid ei chyflawni (Iago 5:12)

Ymadrodd arall sy'n debyg yw "cyfamod," cytundeb difrifol (*it*-1 520-1)

Mewn gwirionedd, cyfamod yw unrhyw addewid a wna Jehofah, gan y bydd yn sicr o gael ei gweithredu

Mae pobl sy'n torri cyfamod yn cael eu dosbarthu gyda'r rhai mae Duw yn eu hanghymeradwyo (Rhuf 1:28, 31, 32)

Anghymeradwyodd Duw Sedeceia am iddo dorri cyfamod hyd yn oed â gelyn (2Cron 36:11-13; Esec 17:11-18; *w*77 454)

MAE JEHOFAH YN GOSOD ESIAMPL BERFFAITH O GADW ADDEWIDION (10 mun.)

Nid yw dim un o addewidion Jehofah byth yn mynd heb ei chyflawni (Heb 10:23)

Mae ei hanes yn y gorffennol fel Cyflawnwr ei air heb fai

Tystiodd Josua a Solomon i'r nodwedd yma a berthyn i'w Duw (Jos 21:45; 1Bren 8:56)

Mae Jehofah yn datgan: "Felly y mae fy ngair sy'n dod o'm genau; ni ddychwel ataf yn ofer, ond fe wna'r hyn a ddymunaf, a llwyddo â'm neges" (Eseia 55:11; *w*75 700)

Mae E'n gymwys iawn i ddatgan yn gadarn fel hyn, gan fod ganddo'r gallu diderfyn i gyflawni ei holl addewidion (Eseia 14:24, 27; *go* 30-1)

Mae ei natur ddigyfnewid a'i wirionedd diwyro yn rhoi sicrwydd y gweithreda yr hyn y mae'n ei addo (Heb 6:17, 18; *w*65 688-9)

Mae teyrngarwch Duw i'w Air ei hun yn sail ffydd gadarn a gobaith y rheiny sy'n dod i'w 'nabod (Rhuf 4:20, 21)

Dylai ei holl gaethweision ffyddlon ei efelychu

ADDEWIDION DWYFOL A GYFLAWNWYD EISOES A'R RHEINY SYDD ETO I'W SYLWEDDOLI (13 mun.)

Fel Josua a Solomon, gallwn ninnau dystio i Dduw gadw ei holl addewidion da

Cyflawnwyd yng Nghrist addewid Jehofah am "had" (Gen 3:15; 22:15-18; Gal 3:16)

Addawodd Duw y Meseia, ac ymddangosodd Hwnnw 1,900 mlynedd yn ôl (Dan 9:24-27)

Addawodd Iesu sefydlu'i Deyrnas yn amser y diwedd

Eisoes fe welwn y dystiolaeth fod y Brenin Iesu Grist gyda phobl Duw heddiw, yn cyfarwyddo'u gwaith o dystiolaethu'n fyd-eang hyd yn oed yng nghanol gelynion goruwch-ddynol a dynol (Dat 11:15, 18; 12:10-12)

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at gyflawni holl addewidion eraill Duw (1Cor 15:24-28; Dat 17:15-18; *re* 256-8; *w*74 346)

Mae Paradwys fyd-eang wedi'i haddo yn fendith i holl ddeiliaid ufudd Duw ar y ddaear (Dat 21:1-4; *Lmn* 29-30)

Cadarnhaodd cwrs cadw-uniondeb perffaith Iesu holl addewidion Duw a gwneud eu sylweddoli'n bosibl (2Cor 1:20)

AR ADDEWIDION PWY, FELLY, Y GWNEWCH CHI DDIBYNNU? (5 mun.)

Ni ellir dibynnu ar addewidion bodau dynol amherffaith

Ni all dynion gyfarwyddo digwyddiadau sy'n effeithio ar gyflawni (Salm 146:3, 4; *w*88 4/15 10-12)

Yn aml gwneir addewidion ar sail cymhelliad cudd, hunanol, felly mae'n bwysig gwrando ar y cyngor a geir yn Salm 118:8, 9

Os ymddiriedwn yn addewidion Jehofah, dyna ddyfodol rhyfeddol sy'n ein disgwyl! (2Pedr 3:13; *su* 107-12)

Gallwn gael rhan yng nghyflawni bendithion y Milblynyddoedd os gweithredwn ffydd yn Jehofah ac efelychu ei barch at addewidion

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll ffynhonnell y deunydd mewn cromfachau)